



Annwyl Gwsmer,

Mae'n dda gennym roi gwybod i chi y byddwn, mewn cydweithrediad â Payzone, yn agor gwasanaeth Swyddfa'r Post newydd yn eich ardal yn Siop One Stop, 1-3 Derlwyn, Abertawe, SA2 7QA, gan ddechrau ddydd Mawrth 16 Ebrill 2024 am 13:00.

Bydd y gwasanaeth yn un o'n canghennau Gollwng a Chasglu, sef un o'n mathau newydd o fformatau ysgafnach i'n canghennau, a ddatblygwyd i gymryd mantais o'r cyfleoedd yn y farchnad barseli rhagdaledig ac i'n helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaeth.

Bydd y cyfleuster Gollwng a Chasglu newydd yn Siop One Stop yn cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post o ddyfais sy'n cael ei ddal yn y llaw, a'i gwneud yn hwylus i gwsmeriaid dalu biliau a chasglu a dychwelyd parseli rhagdaledig. Er mwyn gwella hygyrchedd y gwasanaethau hyn y mae cwsmeriaid yn chwilio'n gynyddol amdanynt, ni fydd gwasanaethau mwy cymhleth megis bancio personol a busnes ar gael yn y gangen hon. Mae manylion am yr oriau agor a'r cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld drosodd. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn y siop er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae dewis ehangach o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o'r canghennau gerllaw yn Swyddfa Bost Dynfant, 2 Pen -y-fro, Dynfant, Abertawe, SA2 7TR a Swyddfa Bost Cilâ, 428 Heol Gŵyr, Cilâ, Abertawe, SA2 7AJ. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/branch-finder

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a'i rhannu ag eraill a allai fod â diddordeb i glywed am y gangen newydd a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ganddi.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned leol yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn eich ardal.

Yr eiddoch yn gywir,

Natalie Liff

Natalie Liff

Rheolydd Cynigion

Cynigion Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Oriau agor a'r gwasanaethau Swyddfa'r Post sydd ar gael	
Llun - Sul	07:00 – 22:00
Post	
Casglu a dychwelyd parseli – rhagdaledig yn unig	
Arall	
Talu biliau	
Gwasanaeth adlenwi ffôn symudol	
I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.	

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilyniwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk.

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Byddwn yn rhoi diweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Rhodddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon; Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol; Cyngorwyr Ward; Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf; elusennau dethol; Cyngor ar Bopeth Lleol; Age UK; Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.